**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 5 MEHEFIN 2025 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Philip Davies (Cadeirydd), Nicola Jones, Janet Knott, Shan Rees, Elfyn Williams, Rheinallt Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Carys Thomas, Meinir James, Viv Davies, Jenny Jones ac Eifion Jones.

Nodwyd bod y Cynghorydd Viv Davies yn sâl o hyd. Derbyniwyd ymddiheuriadau'r Cynghorydd Davies am fis arall o ganlyniad.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod a Cyfarfod Blynddol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 1af Mai 2025.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
2. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **FC29/4 Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
4. **Materion Gorfodaeth Cynllunio caeau yn Idole –** Derbyniodd y Cyngor ddiweddariad ar y broses orfodi ar gyfer y mater. Nodwyd.
5. **Grid Cenedlaethol – Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog –** Derbyniodd y Cyngor wybodaeth am ddogfen Barn Sgrinio Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) ac ymateb y Cyngor Sir i'r mater. Roedd y Cyngor yn awyddus i drefnu cyfarfod gyda'r sefydliad cyn gynted â phosibl oherwydd cymhlethdod y mater er mwyn egluro materion sy'n codi. Bydd y Clerc yn parhau i ddilyn darpariaeth dyddiadau sydd ar gael.
6. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
7. **Cadwyn Cadeirydd y Cyngor** – Parhaodd y Clerc i geisio prisiau bathodynnau enw newydd ar gyfer y Gadwyn.
8. **Torri coed yng Nghroesyceiliog - FC 29 4/1 a 4/2 –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
9. **Cynigion cyfyngiadau aros ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Hysbysodd y Clerc aelodau fod y Cynghorydd Meinir James wedi derbyn caniatâd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir i siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd

Cyngor Cymuned Llandyfaelog mewn perthynas ag Ysgol Gyfun Bro Myrddin, y briffordd gerllaw'r ysgol ac â Chorff Llywodraethol yr Ysgol. Nodwyd.

10. **PL/04973** - **1-4 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Nododd y Cyngor bod y cais cynllunio wedi'i wrthod, ond roedd cais newydd bellach wedi'i gyflwyno.
11. **Maesglasnant, Cwmffrwd –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
12. **Pryderon ynglŷn â chyflymder traffig o Pibwrlwyd yng Nghyffordd Heol Bolahaul –** Roedd y Cyngor yn aros am wybodaeth ar orfodaeth posib yr ardal gan yr Heddlu. Nodwyd.
13. **Cynghorau Cymuned cyswllt Tywi/Teifi – Cyfarfod i Gynghorau Cymuned a Thref mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y prosiect peilonau –** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Nicola Jones ar y cyfarfod diweddaraf a gynhaliwyd ar 27ain Mai 2025. Bydd y cofnodion yn cael eu dosbarthu pan fyddant yn cael eu derbyn. Nodwyd.
14. **Parc Solar Heol Ddu –** Nododd y Cadeirydd ei diddordeb. Hysbysodd y Clerc aelodau fod y Cynghorwyr Nicola Jones, Janet Knott, Shan Rees ac Elfyn Williams wedi derbyn caniatâd arbennig gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir i siarad a gwneud sylwadau ond nid i bleidleisio ar y mater yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llandyfaelog. Felly, nododd y Cynghorwyr Nicola Jones, Janet Knott, Shan Rees ac Elfyn Williams eu diddordeb yn y mater. Gan ystyried hyn, cadarnhaodd y Cynghorydd Rheinallt Jones ei ddiddordeb yn y mater a bydd yn edrych i wneud cais tebyg am ganiatâd arbennig. Hysbysodd y Clerc aelodau byddai Gweithdy Cronfa Buddiannau Cymunedol yn cael ei gynnal yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog ar 17eg Mehefin 2025.
15. **Green Gen** – Byddai cyfarfod gyda'r cwmni yn cael ei gynnal ar 3ydd Gorffennaf 2025 am 7.30pm. Nodwyd.
16. **Sgip wedi tipio anghyfreithlon ym Mhencady** – Nodwyd bod y sgip bellach wedi ei symud.
17. **Un Llais Cymru – Cais am gynigion ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol -** Derbyniwyd cadarnhad byddai cynigion posibl yn ymwneud â'r prosiect ynni yn cael eu hystyried. Cadarnhawyd ymhellach nad oedd Un Llais Cymru'n ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw brosiectau neu bolisïau ynni. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru –** E-fwletin. Nodwyd.
2. **Un Llais Cymru –** Adroddiad o'r Gynhadledd Gwobrau Cenedlaethol. Nodwyd.
3. **Un Llais Cymru –** Nodiadau Datblygu Ymarfer. Nodwyd.
4. **Un Llais Cymru –** Gwybodaeth am y Gynhadledd Arfer Arloesol ar 2il Gorffennaf 2025. Nodwyd.
5. **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru -** Dogfen Polisi ac Ymarfer i baratoi ar gyfer Rhaglen Adolygu Etholiadol 2025. Nodwyd.
6. **Llywodraeth Cymru -** Ymgynghoriad ar wella gweinyddiaeth a gorfodi'r Dreth Gyngor yng Nghymru. Nodwyd.
7. **Coleg Sir Gâr –** Cyfleoedd hyfforddiant. Nodwyd.

8. **Llywodraeth Cymru -** Ymgynghoriad ar y craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nodwyd.
9. **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru** – Ymgynghoriad ar yr arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Nodwyd.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Diweddariad Cyngor Cymuned a Thref. Nodwyd.
11. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda –** Ymgynghoriad ar y Cynllun Gwasanaeth Clinigol. Nodwyd.
12. **Un Llais Cymru – Archwilio Cymru -** Camau ariannol blynyddol: mae gwersi pwysig yn dod i'r amlwg. Nodwyd.
13. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cau ffordd dros dro ar yr U2219 a'r C2074 Uplands Arms ar y 15$^{fed}$ Medi am 5 diwrnod. Roedd y Clerc wedi gofyn am wybodaeth am ddarpariaeth mynediad i drigolion yr effeithir arnynt gan y cau. Nodwyd.
14. **Banc Barclays –** Datganiadau. Nodwyd.
15. **Cylchgrawn Clercod a Chynghorau Uniongyrchol –** Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau Cymunedol**

1. Roedd y Clerc wedi chwilio am gynlluniau grant posibl ar gyfer disodli'r Paneli Hanes Cymunedol a oedd yn dechrau pylu a byddai'n parhau i geisio gwneud ceisiadau.
2. Cymeradwywyd talu'r Anfoneb gan Wrenvale Nurseries and Landscapes o £80.00 ynghyd â TAW ar gyfer y chwistrelliad chwyn cyntaf yn 2025 yn cae Idole.
3. Cymeradwywyd taliad i JM Richards am dorri cloddiau a gyflawnwyd yn 2024 o £150.00 ynghyd â TAW.

**8. Atgyweiriwr Cymunedol**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym misoedd Ebrill a Mai gyda chyfanswm cost o £644.00 y mis yn cael ei gytuno. Cytunwyd hefyd dorri gwair ar gyfer Ebrill a Mai gyda chost o £322.00 y mis.

**9. Adroddiad Blynyddol 2024-25**

Cyflwynodd y Clerc y ffurflen flynyddol a archwiliwyd yn fewnol gan Charles and Company Accountants a nodwyd adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi ardystio a llofnodi'r ffurflen flynyddol. Nodwyd bod arian wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn yn £21,311 (£21,284 2023-24).

Cytunodd y Cyngor y Ffurflen Flynyddol a chwblhawyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi'r ffurflen.

Cytunwyd y Cyngor daliad y ffi Archwilio sef £160.00 gyda TAW.

Cyflwynodd y Clerc hefyd  Adroddiad Blynyddol drafft y Cyngor am y flwyddyn 2024-25. Cymeradwywyd y ddogfen a bydd yn cael ei chyhoeddi ar y wefan ynghyd â'r hysbysiad cyfrifon.

Diolchwyd i'r Clerc am ei waith ar yr Adroddiad Flynyddol a Ffurflen Flynyddol a chofnodion ariannol y Cyngor.

**11. Archwilydd Mewnol 2025-26**

Ystyriodd y Cyngor benodi Archwilydd Mewnol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2025-26. Cytunwyd i gadw Charles and Company yn y rôl am flwyddyn pellach.

**12. Community Events 2025**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2025 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi – Llysiau (Mehefin) a Blodau (Awst);
- Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol – Gardd Fach, Mewn Unrhyw Deunydd, dim mwy na Maint A3. I'w arddangos a'i beirniadu yn y Noson Ddathlu.
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Cymunedol – 9fed Mehefin 2025

Cadarnhawyd trefniadau beirniadu gyda dyddiad i'w gytuno ar gyfer ymweliadau.

**12. Rheoliadau Ariannol**

Ystyriodd y Cyngor y Rheoliadau ddrafft yn dilyn adnewyddiad. Cafwyd y rheoliadau eu fabwysiadu fel polisi'r Cyngor.

**13. Cynllunio**

1. **PL/09369 -** Cadw defnydd adeiladau diwydiannol ac iard gysylltiedig ar gyfer defnyddiau diwydiannol cymysg sy'n cynnwys garej ar gyfer cerbydau masnachol a phreifat a Chyfleuster prosesu metelau, ynghyd â gwaith i godi rhan o'r adeilad i gynyddu'r gofod mewnol - 1-3 Ystâd Fasnachu Gelligaeros, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ. Cytunwyd i godi gwrthwynebiadau, gan nodi bod y Cyngor yn credu bod y cais yn groes i bolisïau cynllunio mewn perthynas â phryderon priffyrdd (GP1,d, h, l ac m), effeithiau amgylcheddol (EP2.b a d) effeithiau sŵn GP1.d ac EP2.c), effaith ar eiddo cyfagos (GP1.d) a phryderon llygredd dŵr (GP1.j).
2. **PL/09286 -** Estyniadau llawr cyntaf a chefn arfaethedig, gan gynnwys garej ar wahân a gwaith cysylltiedig - Eifionydd, Heol y Lan, Idole, Caerfyrddin, SA32 8DD. Dim gwrthwynebiadau.
3. **PL/09295 -** Amnewid garej garreg am garej ac ystafell hobi - Ty Abercyfor, Heol Nantyglasdwr, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2LS. Dim gwrthwynebiadau.

**14. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

1. **Ambiwlans Awyr Cymru –** Cytunwyd rhodd o £50.00.
2. **SSAFA -** Cytunwyd rhodd o £50.00.
3. **Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen –** Nodwyd.

**15. Cyfrifon**

**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

| | | |
|---|---|---|
| **1. Michael Leefe** | **£322.00** | Torri gwair Ebrill (gweler eitem 8) |
| **2. Michael Leefe** | **£644.00** | Atgyweiriwr Ebrill (gweler eitem 8) |
| **3. Wrenvale** | **£96.00** | Chwistrellu chwin Cae Idole |

**Nurseries and Landscapes** £80.00 gyda TAW £16.00 (gweler eitem 7)

4. **Charles and Company £192.00** Archwiliad Mewnol (gweler eitem 9) £160.00 gyda TAW £32.00
5. **JM Richards £180.00** Torri Clawdd Idole (2024) £150.00 gyda TAW £30.00 (gweler eitem 7)

| 6. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Mai a costau** | **£751.49** | **£26.00<br>£7.00<br>£14.40<br>£16.80** | **£815.69** | **£310.20** | **£50.17** | **£505.49** |

7. **Michael Leefe £322.00** Torri gwair Mai (gweler eitem 8)
8. **Michael Leefe £644.00** Atgyweiriwr Mai (gweler eitem 8)
9. **Ambiwlans Awyr Cymru £50.00** Rhodd (gweler eitem 14.1)
10. **SSAFA £50.00** Rhodd (gweler eitem 14.2)
11. **Cyng Nicola Jones £381.55** Lwfans Cadeirydd 2024-25

**16. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nododd y Clerc ei fod wedi adrodd y canlynol i'r Cyngor Sir:
   a. Angen torri cloddiau yn Heol y Lan a Lôn yr Ysgol.
   b. Tipio anghyfreithlon rhwng Maescyneiddion a Garthowen.
2. Anfonir llythyrau llongyfarchiadau at:
   a. Llinos Jones a Caroline Stiles o Glwb Bowlio Llandyfaelog ar gael eu dewis i gynrychioli Tîm Merched Cymru.
   b. Luke Davies ac Osian Davies o Glwb Bowlio Llandyfaelog ar gael eu dewis i gynrychioli Tîm Dan 21 Cymru.
   c. CFfI Llanismel am eu llwyddiant yn Rali CFfI Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 3ydd Gorffennaf 2025.**